NEGESEUON ALLWEDDOL BWRDD DIOGELU OEDOLION GOGLEDD CYMRU

O gyfarfod rhithwir a gynhaliwyd dydd Iau

14 Mai 2020

- Diweddariad gan bob asiantaeth ynglŷn â gweithgarwch diogelu oedolion, themâu a phroblemau arferion yn ystod y misoedd diwethaf, roedd trafodaethau hefyd yn cynnwys materion yn ymwneud â Covid-19 a diweddariadau o gyfarfodydd a gafwyd gyda Chadeiryddion Byrddau Diogelu eraill, Rheolwyr Busnes Rhanbarthol a Llywodraeth Cymru.

- Trafodwyd y cyfathrebiadau gan Lywodraeth Cymru o ran disgwyliadau Llywodraeth Cymru o Fyrddau Diogelu ynglŷn â'u dyletswyddau statudol yn ystod y pandemig.

- Roedd gweithredu Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn dal i fynd ymlaen fel a drefnwyd, ond nid oedd disgwyl cael cydymffurfiaeth lawn tan fis Medi 2020. Pryder yn cael ei fynegi o hyd o ran Adran 5 o'r Gweithdrefnau, mae'r Cadeirydd yn cyfathrebu gyda Bwrdd y Prosiect o ran sut orau i ddatrys y mater hwn.

- Mae disgwyl cael Adroddiadau Blynyddol yr Asiantaeth Bartner erbyn 10 Gorffennaf 2020. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi estyniad i gyhoeddiad Adroddiad Blynyddol y Bwrdd, sydd bellach yn ddisgwyliedig ddiwedd Medi 2020.